❖ Rhyfeddod y Nadolig

Merch ryfeddol oedd Ann Griffiths o Ddolwar Fach yng nghefn gwlad Maldwyn. Er iddi gael cyn lleied o fanteision addysg, meistrolodd heb drafferth athrawiaethau mawr y ffydd Gristnogol. Rhoddodd fynegiant yn ei hemynau i wirionedd yr ymgnawdoliad, sef fod y Gair yn Gnawd, Duw yn Ddyn, a'r Baban yn Frenin y ddaear a Thywysog y nefoedd. Hoffaf ei phwyslais ar ryfeddod y geni, dwyn yr Anfeidrol yn agos, a gwneud y distadl, sef Baban, yn ddyrchafedig fel Gwaredwr y ddynoliaeth. Craffwch ar y pennill sy'n egluro i ni y cyfan hyn, ac am y rhyfeddod hyd yn oed i'r angylion:

> Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
> rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
> gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth
> a Rheolwr popeth sydd
> yn y preseb mewn cadachau
> a heb le i roi'i ben i lawr,
> eto disglair lu'r gogoniant
> yn ei addoli'n Arglwydd mawr.